

# Gwrandawriad Cyn Penodi: Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Medi 2019

## 1. Cyflwyniad

1. Ar 26 Medi 2019, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Syr David Henshaw, ymgeisydd dewisol Llywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae trawsgrifiad y cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.
2. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol am sicrhau bod y Pwyllgor yn cael cyfle i gynnal y gwrandawriad hwn.
3. I lywio'r gwrandawriad, gofynnodd y Pwyllgor i'r ymgeisydd dewisol ymateb i holiadur, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

### 1.1. Y cefndir

4. Sefydlwyd CNC ar 1 Ebrill 2013 pan gyfunwyd cyfrifoldebau, asedau a staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru
5. Yn ogystal â'i amrywiol gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, CNC yw'r prif gorff sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch materion yn ymwneud ag adnoddau naturiol.
6. Mae CNC, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd (Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar hyn o bryd, sef Lesley Griffiths) ac mae Pwyllgorau perthnasol y Cynulliad yn craffu ar ei waith. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod CNC yn



arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn briodol ac yn effeithiol. Mae hefyd yn atebol i Lywodraeth Cymru am sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i waith yn unol â'i llythyr cylch gwaith blynyddol.

**7.** Yn y wybodaeth i ymgeiswyr, a oedd yn cyd-fynd â'r hysbyseb ar gyfer y rôl hon, nodwyd:

“Ar hyn o bryd, mae CNC yn cyflogi tua 1,900 o staff...mae gan CNC gyllideb o ryw £200m ar gyfer 2019-20 - yn grantiau gan Lywodraeth Cymru, yn incwm masnachol ac yn dâl am reoleiddio.”

## 1. 2. Cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru

**8.** Ar 13 Mawrth 2019, anfonodd y Gweinidog llythyr cylch gwaith 2019-2020 CNC, gan ailadrodd mai diben craidd CNC yw “mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i fodloni dyletswyddau statudol wrth arfer ei swyddogaethau”. Hefyd, mae gan CNC rai swyddogaethau allweddol a dyletswyddau rheoleiddiol y mae'n rhaid iddo eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, y trydydd sector a chyrff eraill.

**9.** Mae'r llythyr cylch gwaith yn rhestru blaenoriaethau penodol ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2020:

“Rhaid i waith CNC gyd-fynd â materion polisi allweddol, boed yn rhai newydd neu'n rhai sydd wrthi'n cael eu datblygu, gan adlewyrchu blaenoriaethau Prif Weinidog Cymru, a rhaid i'r gwaith hwnnw gynnwys bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi er mwyn cyflawni rhaglen gyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod CNC yn gwneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer y cyfnod pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r llythyr hwn yn pwysleisio'r materion allweddol hynny.

Bydd y flwyddyn hon yn allweddol ar gyfer datblygu Datganiadau Ardal, oherwydd bod angen eu paratoi erbyn mis Mawrth 2020. Maent yn ganolog er mwyn cyflawni diben cyffredinol CNC ac maent yn gyfle a fydd yn eich galluogi i gynllunio, i flaenoriaethu ac i sbarduno camau gweithredu a fydd yn sicrhau'r canlyniadau mwyaf buddiol i Gymru. Mae eleni hefyd yn hollbwysig ar gyfer paratoi'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) sydd i'w gyhoeddi yn ystod 2020, a hefyd yr adroddiad interim sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019.”

**10.** Y blaenoriaethau eraill a bennir yn y llythyr cylch gwaith yw:

- Ynni Adnewyddadwy - cynhyrchu a buddsoddi mewn technoleg;
- Cael yr effaith fwyaf bosibl ar atal llifogydd, addasu arfordirol a'r newid yn yr hinsawdd;
- Rheoli, rheoleiddio a chreu coetir;
- Gwastraff;
- Polisi rheoli tir ar ôl Brexit;
- Llygredd amaethyddol a gorfodi;
- Mesurau cefnogi i greu mannau gwyrdd hygyrch lleol; a
- Bil Aer Glân Newydd.

## 2. Y broses recriwtio

**11.** Yn dilyn ymddiswyddiad cyn Gadeirydd CNC, Diane McCrea, penododd y Gweinidog Syr David Henshaw yn Gadeirydd dros dro. Dechreuodd yn ei swydd ar 1 Tachwedd 2018. Ym mis Mai 2019, dechreuodd proses penodiadau cyhoeddus i recriwtio Cadeirydd parhaol newydd.

**12.** Anfonodd Llywodraeth Cymru fanylion y penodiad at restrau o randdeiliaid sydd gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus a chynnwys y swydd wag ar wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwefan Swyddfa Cabinet y DU. Postiwyd y swydd wag hefyd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**13.** Rhannwyd y swydd wag ar gyfrifon Twitter Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a CNC.

**14.** Cafodd y rôl ei hysbysebu drwy'r cyfryngau a ganlyn –

- Western Mail – ar-lein yn unig;
- The Daily Post – ar-lein yn unig;
- Diversity Jobs Network – ar-lein yn unig;
- The Guardian - ar-lein yn unig; ac
- [environmentjobs.co.uk](http://environmentjobs.co.uk)

## 2. 1. Manyleb y swydd a'r person

**15.** Yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, nododd Llywodraeth Cymru ei disgwyliadau o berfformiad y Cadeirydd. Dyma'r prif gyfrifoldebau a gafodd eu rhestru:

- Rhoi gweledigaeth ac arweinyddiaeth strategol;
- Cadeirio cyfarfodydd a helpu i ddatblygu'r Bwrdd, gan sicrhau cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad;
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio'n effeithiol â'r Weithrediaeth i ddatblygu strategaeth a chynlluniau busnes corfforaethol sy'n cael eu craffu a'u monitro'n briodol;
- Trwy weithio gyda'r Prif Weithredwr yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, sicrhau bod y trefniadau llywodraethu priodol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r arfer gorau a'r gofynion ar gyrff cyhoeddus;
- Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gyson â'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n berthnasol i'r corff trwy statud;
- Cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr i sicrhau bod strategaeth berthnasol yn bod ar gyfer y corff;
- Cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr i barhau i adeiladu ac aeddfedu strwythur y corff a meithrin ymagwedd bositif at ei waith;
- Goruchwyllo gwaith y Prif Weithredwr, gan roi cymorth priodol yn ôl yr angen, gan gynnwys rheoli ei berfformiad; a
- Cynrychioli'r Corff yn allanol a meithrin cysylltiadau gwaith agos ag unigolion a grwpiau perthnasol.

## 2. 2. Aelodaeth o'r Panel Asesu Ymgynghorol

**16.** Dyma aelodau'r panel:

- Rosie Varley, Uwch Aelod o'r Panel Annibynnol (Cadeirydd y Panel);
- Tim Render, Cyfarwyddwr, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru; a
- Julia Cherrett, Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

**17.** Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Pwyllgor y derbyniwyd 17 cais i gyd. Cynhaliwyd y cyfarfod sifftio ar 5 Mehefin 2019 ac argymhellwyd pedwar ymgeisydd ar gyfer cyfweliad. Roedd y Panel Asesu Ymgynghorol o'r farn bod tri ymgeisydd y gellid eu penodi.

### Ein barn

Rydym yn nodi bod yr ymarfer recriwtio wedi denu 17 o ymgeiswyr, a barnwyd yn y pen draw fod tri ohonynt yn rhai y gellid eu penodi. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol i'r ymarfer recriwtio.

## 3. Yr ymgeisydd dewisol

**18.** Ym mis Awst 2019, cyhoeddwyd mai Syr David Henshaw oedd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru i fod yn Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae wedi bod yn Gadeirydd dros dro ar CNC ers 1 Tachwedd 2018.

**19.** Mae swyddi blaenorol Syr David Henshaw yn cynnwys Prif Weithredwr Cyngor Dinas Lerpwl a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Knowsley. Mae ganddo brofiad hefyd o Gadeirio cyrff GIG Lloegr ar lefel uwch, gan gynnwys yn Ysbyty Plant Alder Hey ac Awdurdod Iechyd Strategol Gogledd-orllewin Lloegr. Mae ei swyddi eraill wedi cynnwys arwain adolygiad o Asiantaeth Cynnal Plant Llywodraeth y DU a Chadeirio bwrdd cynghori Cymru ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**20.** Yn ei ymateb i'r holiadur cyn penodi gan y Pwyllgor, amlinellodd yr ymgeisydd ei ymrwymadau presennol sy'n cynnwys bod yn Gadeirydd Ysbyty Ymddiriedolaeth Sefydledig ac yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl.

### Ein barn

Ers ei sefydlu, mae CNC wedi wynebu heriau sylweddol. Ymddengys ei bod yn anos nag y rhagwelwyd i gyfuno tri sefydliad gwahanol sydd â rolau a diwylliannau gwahanol. Rydym yn ofni, a ninnau chwe blynedd yn ddiweddarach, na wyddys o hyd p'un a yw'r ymdrechion hyn wedi llwyddo.

Mae cyfrifon amodol, contractau diffygiol a chyfraddau salwch uchel ymhlith staff wedi bod yn bla ar y sefydliad dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y cyd-destun hwn felly, mae rôl Cadeirydd CNC yn un sylweddol. Yn ei rôl, rhaid i'r

Cadeirydd gynnig arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd wrth gefnogi'r Prif Weithredwr i gyflawni'r gwelliannau sefydliadol sydd eu hangen.

Penodwyd yr ymgeisydd dewisol, Syr David Henshaw, yn Gadeirydd dros dro CNC ym mis Tachwedd 2018. Gan hynny, mae wedi gallu ennill profiad yn y rôl benodol hon a chychwyn ar y gwaith o wireddu ei weledigaeth ar gyfer y sefydliad. Mae wedi gallu tynnu sylw'r Pwyllgor at y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn ac, o gofio ei fod flwyddyn yn gynt yn dechrau yn y rôl, rydym yn disgwyl gweld y cynnydd yn parhau ar gyflymder, pe bai'n cael ei benodi'n barhaol. Rydym yn cytuno â Syr David y dylai'r Cadeirydd fod yn "atebol am ddarparu trefniadau llywodraethu da, arweinyddiaeth strategol ac adeiladu dull 'un tîm'". Mae'r rhain i gyd yn faterion y byddwn yn dymuno gweld tystiolaeth ohonynt yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol gyda CNC ddechrau 2020.

Mae Syr David wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at ei hanes gyrfaol o rolau arwain mewn sefydliadau sy'n wynebu anawsterau. Dylid nodi, fodd bynnag, fod rhai o'r rolau hyn wedi ennyn ymateb dadleuol amlwg. Bu aelodau'r Pwyllgor yn holi Syr David ar y materion hyn. Mewn ymateb, dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi ymddwyn yn onest trwy gydol ei yrfa, ac wedi dangos na fyddai'n osgoi gwneud penderfyniadau anodd na fyddai o bosibl yn cael eu cefnogi gan eraill, pe bai'n credu mai dyna'r peth iawn i'w wneud.

Cododd aelodau'r Pwyllgor y materion hyn gyda'r Gweinidog pan benodwyd Syr David yn Gadeirydd dros dro am y tro cyntaf, a dywedodd y Gweinidog ei bod yn hyderus â'r penodiad. Nid yw'r Pwyllgor yn ymwybodol o unrhyw faterion tebyg yn cael eu codi yn ystod cyfnod penodi Syr David yn Gadeirydd dros dro.

Mae Syr David yn cydnabod nad yw'n wyddonydd nac yn amgylcheddwr. Fodd bynnag, mae ganddo brofiad helaeth o arwain newid mewn cyrff sector cyhoeddus. O ystyried anawsterau diweddar CNC, rydym yn credu y bydd profiad arwain o'r fath o fudd mawr wrth adfer CNC.

Mae Syr David wedi cydnabod y difrod i enw da CNC sy'n deillio o weithredoedd y sefydliad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae wedi dweud wrthym fod y dasg o ailennill ymddiriedaeth rhanddeiliaid wedi cychwyn, ond nad yw'r sefydliad yn gorffwys ar ei rwyfau a'i fod yn gwybod bod "cryn dipyn i'w wneud eto". Mae'n hanfodol i ddyfodol CNC fod y mater hwn yn cael ei fodloni. Byddwn yn dymuno gweld tystiolaeth o gynnydd o ran y pwynt hwn fel rhan o'n sesiwn graffu flynyddol gyda CNC.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae CNC wedi wynebu gostyngiadau yn ei chyllideb tra bod ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau wedi ehangu ac wedi dod yn fwy cymhleth. Yn ddiâu, bydd angen iddo barhau i esblygu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Ymhellach, mae Syr David wedi cydnabod y rôl amlwg y bydd angen i CNC ei chwarae wrth ymateb i'r datganiad argyfwng hinsawdd a wnaed gan Llywodraeth Cymru.

Un o'r ffyrdd y mae CNC wedi dechrau ymateb i'r pwysau yn hyn o beth yw trwy ailgynllunio'r sefydliad. Rydym yn aros yn awyddus am dystiolaeth o effaith y newidiadau hyn. Fodd bynnag, rhaid inni bwysleisio bod yn rhaid i newidiadau yn strwythur y sefydliad gyflwyno hefyd newid yn niwylliant y sefydliad. Fel arall, nid ydym yn hyderus y byddwn yn gweld y cynnydd sydd ei angen er mwyn i CNC ddod yn sefydliad sy'n addas ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Fel Cadeirydd, bydd Syr David yn chwarae rhan hanfodol wrth wireddu'r weledigaeth honno.

## Casgliadau'r Pwyllgor

Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, nododd pedwar aelod o'r Pwyllgor eu bod yn credu bod Syr David Henshaw yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd. Roedd un aelod yn credu bod y pryderon a godwyd mewn perthynas â rolau blaenorol Syr David yn golygu na allai gymeradwyo ei benodiad. Roedd un aelod nad oedd yn bresennol ar gyfer y gwrandawriad na thrafodaethau'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at drafod ymhellach y materion a godwyd yn y gwrandawriad gyda Syr David yn ei sesiwn graffu flynyddol gyda CNC ddechrau 2020.

## Atodiad A: Ymatebion i'r holiadur

### Cefndir personol

#### **1. A oes gennych unrhyw gysylltiadau busnes neu ariannol, neu ymrwymadau eraill, a allai arwain at wrthdaro buddiannau wrth gyflawni eich dyletswyddau, neu effeithio ar yr amser y gallwch ymrwymo i'r rôl?**

Cysylltiadau busnes neu ariannol a gwrthdaro buddiannau:

Nid oes gennyf unrhyw gysylltiadau busnes nac ariannol a fyddai'n arwain at unrhyw wrthdaro buddiannau.

Ymrwymadau:

Mae gennyf ymrwymadau eraill, sef Cadeirydd Ysbyty Ymddiriedolaeth Sefydledig a Chadeirydd Ymddiriedolwyr National Museums Liverpool, ond mae fy mhrofiad ers fy mhenodi'n Gadeirydd dros dro yn cadarnhau bod gennyf fwy na digon o amser i ymrwymo i'r rôl.

Nid wyf yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw ymrwymadau pellach.

#### **2. A ydych erioed wedi dal unrhyw swydd neu wedi ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai fwrw amheuaeth ar eich didueddrwydd gwleidyddol?**

Nac ydw.

#### **3. Sut cawsoch eich recriwtio: a gawsoch eich annog i wneud cais, ac os felly, gan bwy?**

Drwy gystadleuaeth agored drwy broses penodiadau cyhoeddus llawn. Cefais fy annog i wneud cais gan gydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### **4. Esboniwch sut mae'ch profiad hyd yma wedi eich galluogi i gyflawni'ch cyfrifoldebau newydd.**

Profiadol iawn fel cadeirydd a chyn-brif weithredwr â phrofiad mewn amrywiaeth eang o gyrff sector cyhoeddus mewn llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, yn y sector iechyd ynghyd â phrofiad yn y sector preifat.

Mae gennyf brofiad o rolau llwyddiannus gweithredol ac anweithredol wrth arwain sefydliadau sy'n wynebu heriau, sydd â phroblemau perfformiad sylweddol ar y llwybr i adfer y sefyllfa, gan wynebu ymdrin â materion cymhleth iawn yn aml.



Gwnaeth y profiad hwn fy mharatoi'n dda i weithio gyda chydweithwyr, wrth fynd i'r afael â'r heriau yn Cyfoeth Naturiol Cymru ac rydym wedi gwneud cynnydd mawr ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd y mae gen i'r profiad a'r sgiliau i'w arwain yn fy marn i.

## Perfformio'r rôl

### 5. Beth fydd eich prif flaenoriaethau yn eich rôl newydd?

Yn amlwg, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fynd i'r afael ag agenda enfawr a'r prif flaenoriaethau yw:

1. Arwain y Bwrdd a'r sefydliad i gyflawni'r deg blaenoriaeth yn ein Cynllun Busnes a chwarae rhan arweiniol yn ymateb Cymru i ddatganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng hinsawdd yng Nghymru wrth bwysleisio bod hyn hefyd yn argyfwng amgylcheddol. Mae cynnal amgylchedd iach yn sylfaenol i iechyd, ffyniant a lles Cymru yn y dyfodol.
2. Cyflawni cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru o ran deddfwriaeth cenedlaethau'r dyfodol a llywio ein hagenda weithredol ag ymdeimlad o'n dyletswydd i ofalu am ein hamgylchedd, yr ydym ni'n ei fenthyg, i bob pwrpas, gan genedlaethau'r dyfodol, a dod yn sefydliad sy'n edrych tuag allan.
3. Arwain a datblygu'r Bwrdd i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei lywodraethu'n effeithiol ond, yn bwysicaf oll, mewn modd sy'n sicrhau bod ein holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu harwain yn dda.
4. Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol i arwain Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithiol, ac yn benodol ceisio ymgorffori'r gwelliannau o ran diwylliant a llywodraethiant yr ydym yn cydnabod sydd eu hangen yn dilyn Adroddiad Grant Thornton.
5. Meithrin perthnasoedd cryf gyda'n holl randdeiliaid ledled Cymru a thu hwnt, gan ddatblygu ein henw da fel partner dewis ar gyfer sefydliadau eraill a gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn anhepgor i Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru.

### 6. Pa feini prawf y dylid eu defnyddio i asesu eich perfformiad dros eich tymor yn y swydd?

Yn gyffredinol, y prif faen prawf y dylid ei ddefnyddio yw bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn perfformio'n strategol ac yn weithredol mewn modd effeithiol ac yn effeithlon, sy'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd cyfan gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol.

Fodd bynnag, rwy'n arwain y Bwrdd ac felly dylwn fod yn atebol am ddarparu llywodraethiant da, arweinyddiaeth strategol ac am ddatblygu dull gweithreu "un tîm".

Yn ogystal, byddwn yn awgrymu'r meini prawf a ganlyn:

- Arweinyddiaeth weladwy gan y Cadeirydd anweithredol a hyder gan y Bwrdd
- Hyder rhanddeiliaid a staff ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru a'u hymddiriedaeth ynddo
- Hyder Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru
- Sicrhau adferiad Cyfoeth Naturiol Cymru

Rwy'n bwriadu cyflwyno system arfarnu 360 gradd ar gyfer aelodau'r Bwrdd a minnau.

## Y Sefydliad

### 7. Pa feini prawf y dylid eu defnyddio i asesu perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyfanrwydd?

Rwyf wedi cyfeirio at hyn eisoes ond yn gryno, dyma'r meini prawf y dylid eu defnyddio i asesu perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyfanrwydd:

- Cyflwyno'r agenda strategol
- Perfformiad gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru
- Barn ein rhanddeiliaid a phawb yr ydym yn eu gwasanaethu
- Barn Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru ac, yn syml, ein bod yn cael ein dwyn i gyfrif wrth gyflawni ein cyfrifoldebau
- Gweithlu sy'n perfformio'n dda ac ny llawn cymhelliant
- Barn archwilio gadarnhaol - Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS), ISO, Swyddfa Archwilio Cymru
- Gwella boddhad cwsmeriaid

### 8. Beth yn eich barn chi yw'r risgiau allweddol i gyflawni amcanion Cyfoeth Naturiol Cymru?

Yn syml:

- Adnoddau (staff / arian)
- Newid diwylliannol
- Brexit
- Newidiadau deddfwriaethol

### **9. Beth yn eich barn chi oedd prif lwyddiannau a methiannau Cyfoeth Naturiol Cymru? Pa wersi y gellir eu dysgu o'r methiannau?**

Llwyddiannau:

- Y gwaith parhaus wrth uno tri sefydliad yn un, a hynny tra bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ailstrwythuro'n llwyr er mwyn cyflawni pwrpas statudol newydd a darpariaeth sy'n seiliedig ar leoedd.
- Y gwaith adfer parhaus o ran gwerthu coed a choedwigaeth yn fwy cyffredinol.

Tra bod y newid sylweddol hwn yn mynd rhagddo, bwrw ymlaen a gwaith parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru] gan gynnwys, er enghraifft:

- Ymdrin â digwyddiadau amgylcheddol – clefydau coed, llifogydd (e.e. Storm Callum, tanau coedwig)
- Y gwaith parhaus o ailadeiladu ein galluedd
- Cyflwyno'r Adroddiad cyntaf erioed ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

Methiannau:

- Cyfrifon ag amodau arnynt a llywodraethiant y broses o werthu coed
- Ymgysylltu á'r cyhoedd ynghylch penderfyniadau anodd (e.e. Caniatádu, Prosiectau Llifogydd)

Gwersi:

Fel ym mhob sefydliad, mae angen eglurder gwirioneddol ynghylch ein gweledigaeth a'n strategaeth, a chynllun sy'n ddealladwy i bawb. Byddwn yn awgrymu ein bod yn pwysleisio'r canlynol:

- Llywodraethiant da a dull gweithredu 'un tîm' ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gyfanrwydd
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd diwylliant sefydliadol cadarnhaol a buddsoddi mewn pobl

- Taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfeiriad corfforaethol canolog y tu ôl i strategaeth gydlynol a'r gwaith o ddatganoli cyfrifoldeb yn effeithiol a grymuso pobl
- Dod yn sefydliad sy'n edrych tuag allan sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â phartïon sydd â diddordeb ac yn eu cynnwys yn gynnar, a'r angen i sicrhau dealltwriaeth glir o'n rolau a'n cyfrifoldebau wrth fynd i'r afael â phenderfyniadau anodd sy'n aml yn amhoblogaidd

## 10. Beth yw eich asesiad o broffil cyhoeddus ac enw da'r sefydliad?

Rydym ni ond megis dechrau ond rwy'n teimlo bod cydnabyddiaeth bod Cyfoeth Naturiol Cymru ar y trywydd iawn bellach i adfer pethau, er bod llawer i'w wneud a mwy i'w wella. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru set o gyfrifoldebau heriol. Ar un pen o'r sbectrwm, rydym yn rheoleiddiwr ac ar y pen arall yn gyfrifol am godi'r hwyl, am eirioli ac am hyrwyddo.

Bydd y rolau hyn a phopeth sydd rhyngddynt yn cael eu huno wrth fynd ymlaen. Ni fyddwn ni byth yn plesio pawb.

Yn benodol:

- Rydym wedi dechrau ar y dasg o ailadeiladu ymddiriedaeth â llawer o randdeiliaid, ond nid ydym yn hunanfodlon ac mae cryn dipyn i'w wneud o hyd.
- Mae angen i ni barhau i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'n rolau a'n cyfrifoldebau niferus.
- Mae angen i ni barhau i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd ein cyfoeth naturiol a'n hamgylchedd i iechyd, ffyniant a lles Cymru yn y dyfodol.
- Mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd ar lawer o faterion. Ond rydym yn gwneud hynny gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd gennym mewn ffordd agored a thryloyw, a'n huchelgais yw gwneud hyn gan gynnwys pobl eraill o'r cychwyn cyntaf.